| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2013/14** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar gyfer y flwyddyn 2013/14.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor Safonau ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon a rhoi eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod aelodau'n ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2013/14

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Bob blwyddyn, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau swyddfa'r Ombwdsmon wrth ymdrin â chwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

4.2 Mae gan swyddfa'r Ombwdsmon ddwy brif rôl. Y cyntaf yw ymchwilio i gwynion o gamweinyddu gan gyrff cyhoeddus. Yr ail, ac, yn fwy perthnasol i'r Pwyllgor hwn, yw cyfrifoldeb swyddfa'r Ombwdsmon am ymchwilio i gwynion yn ymwneud â honiadau o fynd yn groes i God Ymddygiad gan aelodau etholedig y Cynghorau Unedol, Dinas, Tref a Chymuned.

4.3 Mae Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon â'r teitl 'Gwneud Gwahaniaeth' wedi'i atodi yn Atodiad 1.

4.4 Yr adroddiad presennol yw wythfed adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon ers i swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael ei chreu ym mis Ebrill 2006. Mae'r adroddiad eleni wedi ei baratoi gan Margaret Griffiths, yr Ombwdsmon Dros Dro, ar ôl cymryd y rôl ym mis Rhagfyr 2013 yn dilyn ymadawiad yr Ombwdsmon blaenorol Mr Peter Tyndall a adawodd i ymgymryd â rôl newydd fel Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon. Mae'r

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei benodi gan y Goron ar argymhelliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Nick Bennett, sydd ar hyn o bryd yn Brif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Cymru, wedi ei enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr Ombwdsmon nesaf. Roedd cymeradwyaeth Frenhinol ar gyfer penodi Mr Bennett yn cael ei geisio ar adeg ysgrifennu Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon.

4.5 Mae llwyth achosion swyddfa'r Ombwdsmon wedi gweld cynnydd nodedig yn nifer y cwynion a dderbyniwyd. Er bod nifer y cwynion mewn perthynas â chyrff cyhoeddus ac ymddygiad aelodau awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd o 117% dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'n bleser nodi bod y nifer o gwynion a dderbyniwyd gan swyddfa'r Ombwdsmon mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad wedi gostwng yn sylweddol unwaith eto. Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn 2013/14 oedd 228 o'i gymharu â 291 yn 2012/13. Mae hyn yn ostyngiad o 22%. O'r 228 o gwynion hynny, roedd 115 yn ymwneud â Chynghorau Tref, Dinas neu Gymuned, 111 yn ymwneud ag Awdurdodau Unedol a 2 yn ymwneud ag Awdurdodau Tân. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

4.6 Mae'r Ombwdsmon yn ystyried y gellir priodoli'r gostyngiad o 22% yn nifer y cwynion a dderbynnir gan y swyddfa o ran y Cod Ymddygiad i gyflwyno trefniadau datrys lleol gan awdurdodau lleol ac i arfer yr Ombwdsmon o gyfeirio cwynion lefel isel a wnaed gan un aelod yn erbyn y llall i Swyddogion Monitro awdurdodau i gael eu trin yn lleol.

4.7 Roedd y mwyafrif o gwynion a gafwyd yn ystod 2012/13 yn ymwneud â 'chydraddoldeb a pharch' a oedd yn cyfrif am 36% o'r cwynion a gafwyd. Mae hyn o'i gymharu â ffigur o 35% yn 2012/13.

4.8 Mae'r meysydd mwyaf nesaf o gwynion yn ymwneud â datgelu a chofrestru cysylltiadau a oedd yn cyfrif am 21% o gwynion a chywirdeb a oedd yn cyfrif am 20% o gwynion.

4.9 Gwnaeth swyddfa'r Ombwdsmon gau 229 o achosion yn 2013/14. Byddai'r ffigur hwn yn cynnwys y cwynion newydd yr ymdriniwyd â hwy o fewn y flwyddyn a hefyd rhai cwynion a oedd wedi eu cario drosodd o 2012/13. O'r 229 o gwynion hyn cafodd 176 eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol. Mae hyn yn golygu bod yr Ombwdsmon naill ai wedi penderfynu nad oedd tystiolaeth olwg gyntaf o dorri'r Cod, nad oedd y toriad honedig yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad ac felly'n annhebygol o ddenu sancsiwn, neu fod y digwyddiad cwyno wedi digwydd cyn i'r aelod gael ei ethol h.y. cyn iddo gael ei rwymo gan y Cod.

4.10 Tynnwyd 12 o gwynion yn ôl ac roedd 8 o ymchwiliadau wedi dirwyn i ben. Cafodd 33 o ymchwiliadau eu cwblhau, daeth 10 ohonynt i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod, daeth 17 i'r casgliad nad oedd angen gweithredu, cyfeiriwyd 5 at Bwyllgorau Safonau a chyfeiriwyd 1 at Banel Dyfarnu Cymru.

4.11 Mae nifer yr achosion a gyfeiriwyd naill ai at Bwyllgor Safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru wedi gostwng yn sylweddol o 20 yn 2012/13 i ddim ond 6 yn 2013/14. Mae'r Ombwdsmon yn priodoli hyn yn rhannol i effaith Dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Calver yn 2012 sydd wedi ei ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor. Mae'r Ombwdsmon yn cadarnhau yn yr adroddiad bod y dyfarniad yn achos Calver wedi codi'r bar ar yr hyn y mae'r Ombwdsmon yn ei gyfeirio at Bwyllgor Safonau neu’r Panel Dyfarnu.

4.12 Mae'r Ombwdsmon hefyd yn cadarnhau bod yr arfer o ysgrifennu at Swyddogion Monitro lleol lle mae’r Ombwdsmon yn bwriadu peidio ag ymchwilio i gŵyn, neu wedi cychwyn yr ymchwiliad yn bwriadu cau'r achos, wedi parhau. Yn yr amgylchiadau hyn, mater i'r Swyddog Monitro leol yw ystyried a ydynt yn cymryd barn wahanol i'r Ombwdsmon ar y tebygolrwydd y bydd y Pwyllgor Safonau yn rhoi sancsiwn. Os yw'r Swyddog Monitro o'r farn y gall y Pwyllgor Safonau lleol roi sancsiwn yna gallant ofyn i’r ymchwiliad gael ei drosglwyddo iddynt hwy i'w ystyried yn lleol. Yn ystod y flwyddyn 2013/14, cyfeiriwyd 16 o gwynion at Swyddogion Monitro gan yr Ombwdsmon a dim ond 1 gafodd ei alw i mewn ar gyfer ymchwiliad lleol.

4.13 Yn Sir Ddinbych derbyniodd yr Ombwdsmon 4 o gwynion mewn perthynas â Cynghorwyr Sir. O'r rhain, tynnwyd 2 yn ôl a chafodd 2 eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol.

4.14 Derbyniwyd 9 o gwynion mewn perthynas â Chyngor Tref Prestatyn, mae 8 wedi eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol a thynnwyd 1 yn ôl. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o lefel y cwynion a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol.

4.15 Ni wnaed unrhyw gwynion eraill mewn perthynas â Chynghorau Dinas, Tref neu Gymuned yn Sir Ddinbych yn 2013/14.

4.16 Mae'r Ombwdsmon hefyd wedi adrodd ar berfformiad swyddfa’r Ombwdsmon o ran yr amser a gymerir i ystyried cwynion Cod Ymddygiad.

4.17 Mae'r Ombwdsmon yn gosod dau darged o ran amserlenni. Y cyntaf yw y dylai o leiaf 90% o'r holl achwynwyr gael gwybod o fewn 4 wythnos a fydd yr Ombwdsmon yn trafod eu cwyn. Mae’r cyfnod o 4 wythnos yn rhedeg o'r dyddiad y mae digon o wybodaeth yn cael ei derbyn. Yn ystod y flwyddyn 2013/14 llwyddodd yr Ombwdsmon i roi gwybod i achwynwyr o fewn 4 wythnos mewn perthynas â 81% o'r cwynion a dderbyniwyd.

4.18 Yr ail darged yw dod â phob achos i ben o fewn 12 mis o bwynt lle mae penderfyniad yn cael ei wneud i ymgymryd â chwyn ac i gychwyn ymchwiliad. Llwyddodd swyddfa'r Ombwdsmon i gyflawni cyfradd llwyddiant 100% ar gyfer cwblhau ymchwiliadau Cod Ymddygiad o fewn 12 mis yn ystod y flwyddyn 2013/14. Mae hyn yn welliant sylweddol ar berfformiad blaenorol.

4.19 Mae'r Ombwdsmon hefyd yn cyfeirio at y cap ar indemniadau yn yr adroddiad. Mae'r Ombwdsmon wedi gwneud yn glir y pryderon am y lefelau o indemniad sydd gan rai aelodau o'r blaen. Mae’r Ombwdsmon yn adrodd bod cynnydd da wedi'i wneud o ran y terfyn uchaf gwirfoddol o £20,000 yn cael ei roi ar

indemniadau gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn mynegi siom bod dau gyngor sydd â threfniant yswiriant ar waith ar gyfer indemniadau wedi nodi na allant gyflwyno'r cap £20,000 oherwydd bod y cwmnïau yswiriant wedi gwrthsefyll y terfyn. Mae'r Ombwdsmon yn cyfeirio at y ffaith fod gweinidogion y llywodraeth wedi nodi o'r blaen y gallant ystyried deddfu mewn perthynas â lefel indemniadau os na ellid sicrhau cytundeb gwirfoddol a bod hyn yn fater y gellir ei adolygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Ni ofynnir i'r Pwyllgor wneud penderfyniad.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1

*7.* **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

7.1 Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Craffu ac eraill?**

8.1 Ni fu unrhyw ymgynghori gyda'r Pwyllgor Craffu.

**9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen penderfyniad.